



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

10 Tachwedd 2021

Ymateb Comisiynydd Heddlu a Throseddau Dyfed-Powys i

Ymateb yr heddlu i drais yn erbyn menywod a merched

Daw'r adroddiad arolwg hwn ar adeg pan fo trais yn erbyn menywod a merched yn genedlaethol yn cael blaenoriaeth mewn llawer o drafodaethau, ac yn gwbl briodol felly.

Rwy'n croesawu ffocws AHGTAEM ar y mater hwn ar hyn o bryd, ond mae'n rhaid i ni gydnabod bod trais yn erbyn menywod a merched (VAWG) wedi bod yn flaenoriaeth i mi, i Heddlu Dyfed-Powys ac i blismona yng Nghymru ers peth amser bellach.

Mae Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn parhau i fod yn flaenoriaeth i Ddyfed-Powys fel y'i llywodraethir gan fy Nghynllun Heddlu a Throseddau presennol, Strategaeth Rheoli'r Heddlu a blaenoriaethau'r Prif Gwnstabl. Gallaf gadarnhau y bydd hefyd i'w weld yn amlwg yn fy Nghynllun Heddlu a Throseddau newydd, sydd i'w gyhoeddi'n fuan.

Rwy'n cynnal trafodaethau rheolaidd gyda'm cyd-Gomisiynwyr Heddlu a Throseddau yng Nghymru ynghlŷn â Thrais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Cham-drin Rhywiol (VAWDASV) a sut y gallwn ymestyn ein heffeithiolrwydd i'r eithaf yng Nghymru. Rydym wedi cytuno i weithio gyda Llywodraeth Cymru ar Lasbrint VAWDASV i Gymru. Gyda'n gilydd, rydym hefyd wedi lloïo'r Swyddfa Gartref o ran cyfle a gollwyd yn y Bil Plismona: Fel y'i drafftwyd, nid yw'r Bil Plismona yn cynnwys trais domestig a cham-drin a thrais rhywiol yn benodol ac felly mae'n colli'r cyfle i gynyddu'r amddiffyniad a roddir i ddiodefwyr a goroeswyr y mathau hyn o drais a cham-drin.

Mae trais yn erbyn menywod a merched wedi bod yn flaenoriaeth i'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol yng Nghymru ers cryn amser, ac mae i'w weld fel llinyn arian ar draws yr holl flaenoriaethau yn y rhaglen waith bresennol. Yn ogystal â hyn, mae diodefwyr trais rhywiol a throseddau rhywiol yn ffrwd waith benodol o fewn y flaenoriaeth diodefwyr a thystion. Mae fy nghynllun cyflawni Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol yn adlewyrchu hyn ac yn canolbwyntio ar ddarparu safleoedd tystiolaeth o bell a chyfleusterau llys i ddiodefwyr VAWDASV.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i ddatblygu'r Hwb Bregusrwydd, sy'n rhoi cymorth arbenigol i swyddogion sy'n delio â digwyddiadau trais yn y cartref ac yn helpu i wella'r gwasanaeth i ddiodefwyr. Mae gweithgarwch diweddar yn cynnwys rôl arbenigol a ariennir gan grant o fewn yr Hwb ar gyfer gwella'r ffordd y rheolir cam-drin domestig.

Mae Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i wneud cynnydd sylweddol o ran lleihau nifer yr ymchwiliadau sydd ar agor am fwy na 12 mis.

Mae prosiect O'r Dechrau i'r Diwedd Heddlu Dyfed-Powys yn parhau i ganolbwyntio ar roi dioddefwyr wrth wraidd popeth drwy ddeall y galw, gwella prosesau a dylanwadu ar ddiwylliant er mwyn eu galluogi i fod yn effeithlon ac yn effeithiol.

Yn ddiweddar, mae fy swyddfa wedi sicrhau arian ychwanegol o dros £600,000 gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder er mwyn cynyddu'r gefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ardal Dyfed-Powys. Bydd y cyllid yn helpu i gefnogi dioddefwyr sydd wedi profi Cam-drin Domestig neu Drais Rhywiol ar unrhyw adeg yn eu bywyd. Bydd y cymorth annibynnol arbenigol ychwanegol a fydd ar gael yn awr yn cael ei ddarparu gan ystod eang o sefydliadau cymorth yn y gymuned, yn dilyn cynnydd yn y galw am gymorth. Bydd naw rôl ychwanegol yn cael eu creu a bydd hyfforddiant arbenigol ar gyfer gweithwyr proffesiynol lleol hefyd yn cael ei ddarparu, gyda'r nod o feithrin capasiti o fewn llochesi cam-drin domestig fel ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion, er mwyn galluogi plant i gael mynediad at ymyriadau cynnar gan oedolion y maent yn ymddiried ynddynt a hynny mewn man diogel. Rwy'n falch o ddweud bod yr arian ychwanegol hwn yn dod â chyfanswm y buddsoddiad mewn gwasanaethau i ddioddefwyr i dros £1.7 miliwn yn ystod 2021/22, o gyfuno cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder a chyllid craidd o'm swyddfa i. Rwy'n parhau i ariannu nifer o wasanaethau cymorth i bobl y mae cam-drin domestig, trais rhywiol ac ymosodiadau rhywiol yn effeithio arnynt ledled ardal yr heddlu.

Mae fy swyddfa hefyd wedi cyflwyno cais yn ddiweddar i Gronfa Diogelwch Menywod yn y Nos y Swyddfa Gartref er mwyn darparu dulliau arloesol o greu mannau diogel i fenywod yn ein cymunedau, yn enwedig economi'r nos a chydabod ein poblogaethau dros dro o fyfyrwyr ac ymwelwyr sydd ar eu gwyliau. Disgwylir canlyniad y cyflwyniad hwn ym mis Tachwedd.

Bydd gwaith yn parhau i hyrwyddo Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr Dyfed-Powys, a reolir gan fy nhîm, er mwyn sicrhau y ceisir adborth yn uniongyrchol gan ddioddefwyr o ran y gwasanaeth a ddarperir gan Heddlu Dyfed-Powys. Mae llawer o gyfleoedd i ddioddefwyr ymuno â'r Fforwm wedi derbyn cyhoeddusrwydd, gan gynnwys drwy ein gwasanaethau VAWDASV ac yn ddiweddar drwy Swyddfa'r Comisiynydd Dioddefwyr lle dosbarthwyd e-bost i ddioddefwyr o'r ardal leol a ymatebodd i Arolwg Dioddefwyr blynyddol y Comisiynydd Dioddefwyr. Yn ddiweddar, bu aelodau'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr yn bwydo'n ôl ar eu profiad o effaith COVID-19 ar wasanaethau cymorth i ddioddefwyr, ac yn fuan, gofynnir iddynt roi adborth ar daflen Heddlu Dyfed-Powys sy'n rhoi arweiniad a chynghor arbenigol i ddioddefwyr troseddau rhywiol.

Yn ogystal, mae gwaith ar y gweill i archwilio'r sefyllfa'n lleol o ran pa mor ddiogel y mae menywod a merched yn teimlo ar lefel leol, a pha gamau y gallaf eu cymryd i sicrhau ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn cael ei lansio ym mis Tachwedd 2021.

Ar hyn o bryd mae fy nhîm yn gweithio ochr yn ochr â Heddlu Dyfed-Powys i hyrwyddo'r pecyn cymorth newydd StreetSafe sy'n cael ei dreialu ar hyn o bryd. Mae ar gael ar holl wefannau'r bob un o'r Heddluoedd ac mae'n wasanaeth er mwyn i aelodau'r cyhoedd ddweud wrth Heddlu Dyfed-Powys, yn ddiennw, am fannau

cyhoeddus lle maent wedi teimlo'n anniogel, oherwydd materion amgylcheddol, e.e. goleuadau stryd, adeiladau sydd wedi'u gadael yn wag neu fandaliaeth a/neu oherwydd ymddygiadau, e.e. cael eu dilyn neu eu cam-drin yn eiriol.

O ystyried canfyddiad penodol adroddiad AHGTAEM bod y "*Defnydd o bwerau amddiffynnol (fel Gorchmynion Diogelu Rhag Trais Domestig (DVPOs), Hysbysiadau Amddiffyn Rhag Trais Domestig (DVPNs) a Gorchmynion Diogelu Rhag Stelcio (SPOs)), yn anghyson, ac nid oes esboniad am hyn*", fe roddir ystyriaeth ynghylch a fyddai'n briodol ac yn addas i aelodau fy Mhanel Sicrhau Ansawdd graffu ar ddefnydd Heddlu Dyfed-Powys o bwerau diogelu.

Ar yr un pryd, mae gweithgarwch craffu a gynhaliwyd yn ddiweddar gan AHGTAEM, y Coleg Plismona a Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu wedi arwain at yr argymhelliad y dylai Prif Gwnstabiadaid adolygu, ac os oes angen, adnewyddu eu polisi ar DVPNs a DVPOs er mwyn sicrhau bod llywodraethu a chyfathrebu clir ar gyfer blaenoriaethu eu defnyddio'n effeithiol. Rwyf wedi gofyn am dystiolaeth fanwl gan Heddlu Dyfed-Powys ynglŷn â phob un o'r argymhellion yn adroddiad AHGTAEM ac fe'm sicrhawyd gan y camau a gymerwyd hyd yma a'r rhai a gynlluniwyd ar gyfer y dyfodol. Byddaf yn ceisio sicrwydd parhaus o gyflawniad yr allbynnau allweddol sy'n ymwneud â hyn.

Yn benodol mewn perthynas â gweithredu'r canfyddiadau a'r argymhellion a nodir yn adroddiad AHGTAEM ar ymateb yr Heddlu i drais yn erbyn menywod a merched, rwyf wedi gofyn am sicrwydd gan y Prif Gwnstabl ynghylch gwaith cyfredol a pharhaus sy'n ymwneud ag argymhellion yr adroddiad. Fe ddywedwyd wrthym fod Strategaeth Heddlu'n cael ei datblygu ar gyfer rheoli argymhellion yr adroddiad.

Pennaeth Bregusrwydd Heddlu Dyfed-Powys sydd yn arwain ar y darn hwn o waith, a bydd yr argymhellion yn cael eu monitro a'u trafod ym Mwrdd Bregusrwydd Strategol Heddlu Dyfed-Powys. Mae fy Nghyfarwyddwr Comisiynu a'm Hymgynghorydd Polisi ac Ymgysylltu ill dau'n eistedd ar y Bwrdd Bregusrwydd Strategol, a byddant yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i mi o ran y cynnydd a adroddwyd yn erbyn yr argymhellion. Byddant hefyd yn gallu gofyn cwestiynau i'r Bwrdd ar fy rhan.

Mae'r Prif Gwnstabl wedi darparu gwybodaeth benodol am weithredoedd yr Heddlu yn erbyn pob un o'r argymhellion:

Argymhelliad 3 – Dylid sicrhau bod strwythurau a chyllid mewn grym ar gyfer sicrhau bod dioddefwyr yn derbyn cymorth cyson wedi'i deilwra.

3.2 Erbyn Mawrth 2022, dylai pob gwasanaeth heddlu sicrhau bod gwybodaeth am nodweddion gwarchoddedig dioddefwyr yn cael ei chofnodi'n gywir a chyson.

Mae gwaith yn digwydd yn genedlaethol ar hyn o bryd er mwyn cefnogi cydymffurfiaeth â'r argymhelliad hwn, gan nad yw'n orfodol casglu'r data hwn ar hyn o bryd. Fodd bynnag, bydd y cam gweithredu'n cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf ein Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau Strategol o fewn yr heddlu er mwyn

ystyried anghenion datblygu TGCh o fewn yr heddlu i sicrhau ein bod ni mewn sefyllfa i gipio'r data sydd angen erbyn Mawrth 2022.

Argymhelliad 4 – Dylai pob prif gwnstabl adolygu safonau'n syth a sicrhau bod safonau uchel yn gyson yn ymateb eu heddluoedd i drais yn erbyn menywod a merched, a dylai data a safonau cenedlaethol eu cefnogi i wneud hynny.

4.1 Erbyn Mawrth 2022, dylai prif gwnstablaiad sefydlu a chyhoeddi cynllun gweithredu sy'n nodi'r camau y bydd yr heddlu'n cymryd i wella a safoni ei ymagwedd tuag at ymateb i drais yn erbyn menywod a merched yn fanwl, â'r nod o sicrhau bod polisïau, prosesau ac arferion yn cael eu monitro a'u rheoli'n weithredol ac effeithiol, ac yn bodloni safonau cenedlaethol.

Mae fframwaith perfformiad ar gyfer trais yn erbyn menywod a merched yn cael ei greu ar hyn o bryd, a fydd yn galluogi'r heddlu i feincnodi yn erbyn sut mae'n perfformio ar hyn o bryd yn y maes busnes allweddol hwn. Bydd y fframwaith yn ystyried canllawiau ac arfer da cenedlaethol, e.e. Cydymffurfiaeth â Gweithdrefnau Diogelu o dan Weithdrefnau Amddiffyn Cymru, cynnydd a chydymffurfiaeth â'r Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar y Cyd ar gyfer Trais a Throseddau Rhywiol Difrifol a'r cynllun gweithredu Bregusrwydd Cenedlaethol, a'n gwasanaeth i ddioddefwyr Cam-drin Domestig. Bydd yr heddlu hefyd yn rhoi mesurau mewn grym ar gyfer cynnig sicrwydd o gwmpas eu canlyniadau 15 ac 16.

Cynhwysir y fframwaith Perfformiad yn Nigwyddiadau Perfformiad yr Heddlu. Cynhelir yr adolygiad cyntaf o drais yn erbyn menywod a merched ar 9 Tachwedd ym Mwrdd Perfformiad yr Heddlu, sy'n cael ei gadeirio gan y Prif Gwnstabl.

Bydd pob polisi a dogfen ganllaw sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod a merched o fewn y Portffolio Bregusrwydd yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod nhw'n cynnwys yr arfer gorau a hyrwyddir gan y Coleg Plismona, e.e. Trais, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant, Caethwasiaeth Modern, Diogelu Plant ac Oedolion. Mae'r adolygiad hwn wedi bod ar waith ers cryn amser, ac mae bron â dod i ben.

Mae strwythurau mewnol mewn grym i nodi arfer gorau a deddfwriaethau ar draws y portffolio Bregusrwydd drwy'r 'Cyfarfod Arweinwyr Portffolio' sy'n adrodd yn uniongyrchol wrth y Grŵp Bregusrwydd Strategol.

Mae'r heddlu hefyd wrthi'n cynnal adolygiad mewnol o'i ymateb i Ddiogelu Plant, ag adolygiad o'r plant hynny sy'n destun cam-drin rhywiol, gan gynnwys cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl yn seiliedig ar adolygiad diweddar yr ymgymeryd ag ef gan Heddlu De Cymru, a bydd adroddiad yn cael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2021, a fydd yn cynnwys argymhellion penodol.

Mae adolygiad pellach o arferion ar waith mewn perthynas â rheoli Troseddwyr MAPPA (Trefniadau Amlasiantaeth Er Diogelu'r Cyhoedd) Lefel 1 sy'n cael eu rheoli gan yr heddlu. Mae gweithdy gydag ymarferwyr yn cael ei gynnal yn ddiweddarach y mis hwn, a fydd yn arwain at greu canllawiau Heddlu Dyfed-Powys, wedi'i fframio yn erbyn canllawiau Arferion Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Plismona, ac ar y cyd â chanllawiau Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi o gwmpas rheoli troseddwyr lefel un, a gyflwynwyd yn dilyn canlyniadau'r Arolygiad PEEL diweddar.

Argymhelliad 5 – Adolygu'r defnydd o ganlyniadau 15 ac 16 mewn troseddau trais yn erbyn menywod a merched ar unwaith.

5.2 Erbyn Rhagfyr 2022, dylai Arweinydd Cenedlaethol Cyflenwi Trais yn Erbyn Menywod a Merched Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ddatblygu a rhannu proses i heddluoedd ar gyfer monitro canlyniadau 15 ac 16 mewn achosion trais yn erbyn menywod a merched. Dylai hyn fynnu bod arolygydd o leiaf yn cymeradwyo'r achosion hyn, a bod tystiolaeth o'r rheswm dros y codau cau hyn yn cael ei chofnodi ac yn archwiliadwy.

Mae'r heddlu'n disgwyl canllawiau Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu ymhen 6 wythnos. Bryd hynny, byddant yn sicrhau cydymffurfiaeth lawn â'r canllawiau a gyhoeddwyd i heddluoedd.

Fodd bynnag, yn y cyfamser, mae'r Prif Gwnstabl wedi cadarnhau bod yr heddlu'n archwilio troseddau canlyniadau 15 ac 16 ar gyfer cam-drin domestig, trais a throseddau rhywiol difrifol yn rheolaidd, sy'n cynnwys archwiliadau allanol gan Wasanaeth Eryl y Goron (GEG). Adolygir pob Trosedd Trais gan Dditectif Arolygydd sydd wedi'i bennu'n Uwch Swyddog Ymchwilio cyn gweithredu'r canlyniad, ac mae pob trosedd cam-drin domestig canlyniad 16 yn derbyn adolygiad gorfodol gan Arolygydd. Mae'r Canolfannau Digwyddiadau Lleol a Chanolog newydd, sydd wedi'u creu drwy'r prosiect pen i ben, yn darparu goruchwyliaeth ychwanegol o ran cwblhau troseddau o 7 Tachwedd.

Byddaf yn parhau i graffu ar ddiweddariadau cynnydd gan y Prif Gwnstabl Parmenter a'i huwch dîm rheoli. Yn ogystal â hyn, mae fy Nghynghorydd Ansawdd a Sicrwydd yn mynychu cyfarfod misol gyda Thîm AHGTAEM Heddlu Dyfed-Powys, lle rhoddir diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wnaed yn erbyn yr argymhellion.

O ran y materion sydd bellach yn bodoli o ganlyniad i lofruddiaeth drasig Sarah Everard, mae argymhellion AHGTAEM, wrth gwrs, yn gofyn am arweiniad cryf er mwyn ailddatgan y safonau llym a arferir gan Wasanaeth yr Heddlu yn y DU a dangos ymrwymiad i fynd i'r afael â throseddau treisgar, yn enwedig pan gânt eu defnyddio yn erbyn menywod. O ganlyniad i, ac yn ogystal â'r trefniadau Llywodraethu a amlinellwyd eisoes ar gyfer yr argymhellion, bydd y Prif Gwnstabl yn penodi Prif Swyddog Arweiniol ar gyfer y maes gwaith hwn er mwyn sicrhau bod ganddi'r lefel ddigonol o gymorth a chraffu wrth symud ymlaen.

Mae'r Prif Gwnstabl hefyd wedi ysgrifennu'n uniongyrchol at Syr Tom Winsor yn dweud y byddai'n fanteisiol i'r Llywodraeth ddarparu cyllid parhaus, nid yn unig ar gyfer plismona, ond i sectorau cyhoeddus eraill, ar gyfer gwneud newid gwirioneddol ym mhob agwedd ar fywyd er mwyn cyflawni egwyddorion strategaeth y Llywodraeth ar gyfer mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod.

Rwy'n hyderus bod Heddlu Dyfed-Powys yn cydnabod pwysigrwydd gweithredu argymhellion AHGTAEM a ffocws parhaus plismona yn y maes hwn. Hyderaf fod yr uchod yn rhoi sicrwydd ynghylch ymrwymiad Heddlu Dyfed-Powys i fynd i'r afael â'r

argymhellion, yn ogystal â'm gwaith craffu a'm goruchwyliaeth barhaus o'r maes hwn.